Annwyl Greg ac Ian,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn ERW. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion ynghyd a gwybodaeth o sampl o ysgolion ac UCD yn yr awdurdodau addysg ar draws y rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan swyddogion ERW a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion. Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr. Dyma ddolen i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir,

**Meilyr Rowlands**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi**

**Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UCDau**
**Mawrth – Awst 2020**

## Arweinyddiaeth a chydweithio

Ar ddechrau'r pandemig, roedd ERW yn bartneriaeth o chwe awdurdod lleol, ond tynnodd Castell-nedd Port Talbot yn ôl o'r bartneriaeth ar 31 Mawrth 2020 ar ôl cwblhau 12 mis o rybudd. Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i dderbyn nifer bach o wasanaethau gan ERW yn gysylltiedig â rhaglenni cenedlaethol, fel y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, ond fel arall, rhoddodd ERW y gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion i ysgolion Castell-nedd Port Talbot ar ôl mis Mawrth. Mae'r llythyr hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau gwella ysgolion a ddarparwyd gan dîm canolog ERW, yn ystod y pandemig, i Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

Rhoddodd tri o'r pum awdurdod lleol sy'n weddill rybudd eu bod yn bwriadu gadael ERW ar 31 Mawrth 2021. Yn anochel, mae hyn wedi peri ansicrwydd i staff eleni a chyfyngu ar allu ERW i gyflogi staff newydd i ddisodli staff sydd wedi gadael. Fe wnaeth rheolwr gyfarwyddwr ERW ar ddechrau'r pandemig ymddeol ym Mai 2020. Ymgymerodd ei ddirprwy â swydd y rheolwr gyfarwyddwr, yna ymddeolodd ef yn Awst 2020.

Rydym yn ymwybodol bod gan ERW fodel gweithredu gwahanol iawn o gymharu â'r consortia rhanbarthol eraill. Yn benodol, caiff rôl yr ymgynghorydd her[1] ei chyflawni gan staff sy'n cael eu cyflogi a'u lleoli gan awdurdodau lleol unigol ac mae awdurdodau lleol hefyd yn dewis darparu gwasanaethau ychwanegol o ran gwella ysgolion.

Yn ystod y pandemig, cryfder y model gweithredu hwn oedd y berthynas waith agos sydd gan ymgynghorwyr her ym mhob awdurdod lleol â gwasanaethau addysg eraill yn lleol, felly bu'n bosibl cefnogi ysgolion mewn modd cysylltiedig. Fodd bynnag, oherwydd bod gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu darparu o ddwy ffynhonnell wahanol yn y rhanbarth – yr awdurdodau lleol ac ERW – mae perygl y caiff cyngor gwahanol ei roi a risg dyblygu gwaith.

Trwy gydol y cyfnod, mae arweinwyr ERW wedi ceisio cefnogi lles staff ERW a sicrhau bod adnoddau ERW wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo ysgolion yn y rhanbarth â materion yn gysylltiedig â'r pandemig, ynghyd â'u blaenoriaethau gwella ysgol eu hunain ar hyn o bryd. Mae arweinwyr ERW wedi cynnal sesiynau ar-lein rheolaidd gyda staff fel bod pawb yn gwybod y diweddaraf am effaith y pandemig ar ERW ac i archwilio ar y cyd y ffordd orau o gefnogi ysgolion. Hefyd, gwnaeth arweinwyr ERW yn siŵr fod cymorth personol ar gael i staff drwy wasanaeth adnoddau dynol (AD) Sir Benfro, oherwydd mai nhw sydd â'r prif gyfrifoldeb am AD ar ran ERW.

[1] Defnyddiwn yr ymadrodd hwn am fod y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yn ei ddefnyddio i ddiffinio swyddogaeth benodol. Gallai teitlau staff sy'n cyflawni'r rôl hon amrywio yn lleol.

Darparodd ERW ddiweddariadau rheolaidd am y gefnogaeth y gallent ei chynnig i ysgolion ac UCDau yn y rhanbarth drwy'r e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiad uniongyrchol gan eu staff nhw a staff ymgynghorol awdurdodau lleol.

Mae'r cyfarwyddwr addysg o awdurdod lleol arweiniol wedi rhoi cymorth ac arweiniad gweithredol gwerthfawr i arweinwyr ERW yn ystod y pandemig, a hynny ar ran y pum awdurdod lleol. Darparodd y rheolwr gyfarwyddwr adroddiadau defnyddiol ar gefnogaeth ERW i ysgolion i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cydbwyllgor, er y bu'r dadansoddiad beirniadol yn y naill fwrdd a'r llall o ba mor dda y mae ERW wedi cefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod hwn yn gyfyngedig.

**Hyrwyddo dysgu**

Yn ystod diwedd tymor y gwanwyn a dechrau tymor yr haf, neilltuodd swyddogion ERW gyfran sylweddol o'u hamser i weithio gyda phrosiectau cenedlaethol. Roedd hyn wedi cynnwys llunio amrywiaeth o ddeunyddiau cymorth defnyddiol, ar y cyd, i ategu'r Cynllun Parhad Dysgu cenedlaethol.

Cyfrannodd aelodau o dîm ERW yn sylweddol at arweiniad ar galedwedd a defnyddio adnoddau digidol, gan gynnwys er mwyn cefnogi busnes ysgolion. Lluniodd swyddogion amrywiaeth o gyhoeddiadau buddiol i'r rhanbarth, ar y cyd ag awdurdodau lleol. Rhoddodd y cyhoeddiadau esboniad clir o'r gwahanol fodelau dysgu ac addysgu y gellid eu mabwysiadu ar gyfer dysgu o bell neu ddysgu cyfunol ar draws pob cam a chyfnod allweddol, ynghyd â chanllawiau ategol i rieni. I gyd-fynd â'r canllawiau hyn, lluniodd swyddogion o'r rhanbarth hefyd gyfres o weminarau ar amrywiaeth o bynciau perthnasol, gan gynnwys defnyddio adnoddau Hwb, cefnogi pontio a chysylltu â dysgwyr y Cyfnod Sylfaen. Fe wnaeth y gweminarau hyn gynnwys cameos gan ysgolion yn y rhanbarth a denwyd nifer fawr o wylwyr o ERW ac o bob cwr o Gymru.

Yn gynnar yn ystod y cam hwn, sefydlodd swyddogion wefan yn cynnig gwybodaeth a dolenni ynghylch dysgu o bell a dysgu cyfunol. Tynnwyd ynghyd lawer iawn o arweiniad a gwaith darllen posibl o amrywiaeth eang o ymchwil ryngwladol, ynghyd â dogfennau lleol perthnasol. Roedd y rhain yn amrywio o sylwebwyr addysg byd-enwog, fel Michael Fullan a John Hattie, i bolisïau enghreifftiol awdurdodau lleol ac enghreifftiau o ysgolion yn y rhanbarth. Roedd bron bob un o'r ysgolion a'r UCDau yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau hyn yn fawr, er y dywedodd ychydig arweinwyr ysgol wrthym fod lefel y wybodaeth a rannwyd gan y consortiwm, yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol yn eu llethu, a'u bod yn dibynnu ar gymheiriaid-arweinwyr ysgol neu ymgynghorwyr her lleol i'w helpu i hidlo'r dulliau a allai fod yn fwyaf addas i'w hysgol.

Cafodd y grŵp traws-ranbarth a aeth i'r afael â heriau medrau'r Gymraeg i bob dysgwr ei gadeirio gan swyddogion yn ERW. Yn y rhanbarth, cafodd adnoddau a chefnogaeth i athrawon eu dwyn ynghyd mewn un man ar-lein canolog, gan ei gwneud hi'n hawdd i ymarferwyr gael atynt. Rhoddodd arweinwyr ysgol a swyddogion awdurdod lleol ganmoliaeth i'r gefnogaeth a'r adnoddau gwerthfawr a

rannwyd, gan gynnwys prosiect ‘capsiwl amser’ a gwmpasodd ddeunyddiau iaith Gymraeg, dysgu digidol a ffocws ar les.

**Cameo: Cynorthwyo Ysgol Gyfun Ddwyieithog y Preseli i hybu’r defnydd o’r Gymraeg gartref**

Daw lleiafrif o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg ac roedd yr ysgol yn cydnabod pwysigrwydd hybu a chynnal yr iaith yn y cartref. Mae ffocws penodol ar lafaredd wedi bod yng nghynllun datblygu’r ysgol. Cynorthwyodd swyddogion ERW athrawon i arbrofi â ‘Flipgrid’, sef adnodd digidol y gall dysgwyr ei ddefnyddio i recordio’u hymatebion ar fideo. Mae’r ysgol wedi defnyddio hwn yn llwyddiannus fel un ffordd o atgyfnerthu’r iaith.

Canolbwyntiodd tîm cymorth pwnc arbenigol ysgolion uwchradd ar wella addysgu yn yr ystafell ddosbarth, dysgu o bell ac arweinyddiaeth ganol. Rhoddodd staff yn y tîm gymorth i ysgolion, UCDau a rhwydweithiau ysgolion trwy roi cyngor ar gynllunio a dysgu proffesiynol. Rhoddodd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn y rhanbarth sylwadau cadarnhaol am yr agwedd ddefnyddiol hon ar gymorth ERW. Yn benodol, rhoesant ganmoliaeth i waith y tîm Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth, a gynhaliodd gyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd ar anghenion ysgolion ar draws y rhanbarth, yn ogystal â rhannu adnoddau defnyddiol. Dywedodd penaethiaid fod lles staff wedi elwa o gyfarfodydd rhwydwaith, yn enwedig staff mewn adrannau bach.

Mae gan ERW dîm penodedig i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ystod y cyfnod hwn, cyfrannodd staff yn y tîm at waith cenedlaethol, ond parhaont i gefnogi ysgolion yn y rhanbarth hefyd. Rhannodd y tîm adnodd dysgu proffesiynol ar-lein o’r enw ‘Egwyddorion ar gyfer Rhagoriaeth’. Bwriedir i’r adnodd hwn ddwysáu dealltwriaeth athrawon o’r 12 egwyddor addysgegol sydd wedi’u cynnwys yng nghanllawiau’r Cwricwlwm i Gymru. Ynghyd â llawer o adnoddau eraill ERW, rhannwyd ‘Egwyddorion ar gyfer Rhagoriaeth’ yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac mae ganddo gysylltiadau â phrosiectau Llywodraeth Cymru fel ‘Trafod Addysgeg’ a’r ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol. Yn ogystal, parhaodd y tîm i gefnogi rhaglen ‘Trawsnewid Eich Cwricwlwm’, sydd ar gael yn uniongyrchol i ysgolion trwy ‘Dolen’, sef llwyfan digidol ERW.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu anghenion dysgu proffesiynol ysgolion ac UCDau o ran dysgu yn canolbwyntio’n fawr iawn ar sut i ddatblygu arbenigedd athrawon mewn dysgu o bell er mwyn ymgysylltu â disgyblion a chael cefnogaeth rhieni. Rhannodd ERW arweiniad i gynorthwyo ysgolion i gynnal eu dysgu proffesiynol effeithiol, ar-lein, eu hunain. Cafodd llawer o’r gwaith a gynlluniwyd gydag ysgolion, gan gynnwys y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, Prosiectau Meithrin Gallu Ymchwil, Prosiect Ymholi Ysgolion MAT Arweiniol a’r Prosiect Ymholi Ôl-16, ei atal tan yr hydref i raddau helaeth, er bod cydweithwyr ERW ar gael i helpu cydweithwyr i gynllunio ymlaen ar gyfer y tymor canlynol. Cyflwynwyd rhaglenni arwain cenedlaethol o bell, ochr yn ochr â chydweithwyr rhanbarthol, lle bynnag yr oedd yn bosibl.

### Cefnogi dysgwyr agored i niwed

Cyfrannodd ERW yn sylweddol at ddatblygu canllawiau cenedlaethol i ysgolion ac UCDau ar gefnogi lles dysgwyr, fel rhan o raglen Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru. Ar gefn y canllawiau cenedlaethol hyn, datblygodd ERW adnoddau defnyddiol a chynigiodd ddysgu proffesiynol gwerthfawr ar ddwy thema benodol: cadw mewn cysylltiad a bod yn actif.

O ran thema 'cadw mewn cysylltiad', darparodd ERW weminarau ar sut i ddefnyddio platfformau ar Hwb i annog cydweithio. Cynigiwyd hyfforddiant i ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol ar ddefnyddio Flipgrid. Cymerodd dros 60 o ymarferwyr ran, ac wedyn defnyddiont yr adnodd i ymgysylltu â'u dysgwyr a chadw'u dysgwyr mewn cysylltiad â'i gilydd. Ar gais, darparwyd sesiwn hefyd i staff iaith a lleferydd mewn un awdurdod lleol, yna defnyddiont Flipgrid fel platfform ar gyfer eu gwaith gyda dysgwyr unigol. Datblygwyd gwefan i helpu gyda pharhau i ddefnyddio Flipgrid yn y rhanbarth fel adnodd i gynnal cysylltiad rhwng staff a dysgwyr, gan gynnwys astudiaethau achos gan ysgolion.

O ran thema 'bod yn actif', datblygodd ERW wefan a gyfeiriodd ysgolion ac UCDau at adnoddau a gweithgareddau presennol a fyddai'n arbennig o addas ar gyfer annog gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfnod clo. Roedd yr adnoddau hyn yn cyfateb i feysydd datblygiad corfforol allweddol a bwriadwyd iddynt helpu dysgwyr i ddatblygu'r hyder, y cymhwysedd a'r symbyliad i fod yn actif yn gorfforol.

I helpu ysgolion i baratoi i ailagor ym Mehefin, datblygodd ERW gyfres o weithgareddau cefnogol yn seiliedig ar ddull ystyriol o drawma, oherwydd i rai dysgwyr, bydd nodweddion digwyddiad trawmatig yn perthyn i'r cyfnod clo. Cynigiwyd dysgu proffesiynol i ysgolion ar chwarae seiliedig ar berthynas, o fewn cyfyngiadau COVID-19. Comisiynodd ERW ddau adnodd fideo gyda'r Athro Neil Frude, yn canolbwyntio ar les staff a rheoli gorbryder ymhlith plant a phobl ifanc. Gwyliwyd y fideos hyn dros 150 o weithiau.

## Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UCDau o Fedi 2020 ymlaen

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Oherwydd y posibilrwydd o ddiddymu ERW ym Mawrth 2021, ni phenodwyd rheolwr gyfarwyddwr ym Medi 2020. Yn hytrach, mae dau uwch-aelod staff wedi ymgymryd â rolau prif swyddogion ers Medi. Mae'r newidiadau hyn mewn arweinyddiaeth wedi digwydd mewn cyfnod oedd eisoes yn anodd iawn oherwydd y pandemig. Ers i'r ddau brif swyddog ymgymryd â'u rolau ym Medi, maent wedi parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol ac ysgolion ar draws y rhanbarth.

Mae prif swyddogion ERW wedi cynnig parhad i ddull ERW o gefnogi ysgolion. Mae'r prif swyddogion wedi rhoi adroddiad defnyddiol ar gymorth ERW i ysgolion yn

ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cydbwyllgor, a wnaeth hefyd gwmpasu cynlluniau ar gyfer gweddill y tymor a thu hwnt.

Mae ERW wedi parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd am y cymorth y gall ei gynnig i ysgolion ac UCDau trwy ei sianeli cyfathrebu arferol, ac mae wedi mireinio'r rhain yn ddefnyddiol mewn ymateb i adborth adeiladol.

Mae staff ERW yn gweithio mewn amgylchiadau heriol iawn, gan geisio addasu eu cymorth i ysgolion yn ystod y pandemig heb wybod p'un a fydd ERW – a'u swyddi nhw – yn bodoli y tu hwnt i Fawrth 2021. Mae'r prif swyddogion, gyda chefnogaeth cyfarwyddwr yr awdurdod lleol arweiniol, wedi dangos dealltwriaeth ac wedi bod yn gefnogol, ac wedi rhoi cyfeiriad addas i waith ERW yn y tymor byr.

Mae'r diffyg cynllun ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yn ne orllewin Cymru o Ebrill 2021 ymlaen yn bryder sylweddol. Yn naturiol, mae awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu'u hymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion ar draws pob awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi bod yn rhy araf i sicrhau bod gweledigaeth a chynllun clir ynghylch sut bydd gwasanaethau gwella ysgolion, o ansawdd uchel, sy'n bodloni eu hanghenion, yn cael eu darparu i ysgolion ac UCDau o Ebrill 2021 ymlaen.

Canfu ein harolwg o arweinwyr ysgol yn y rhanbarth ym mis Hydref eu bod yn llai cadarnhaol am y cymorth a gawsant gan ERW ar gyfer dysgu, o gymharu â barn arweinwyr am eu consortiwm mewn dau ranbarth arall ac yn debyg i'r farn yn y rhanbarth arall. Bu gennym bryderon am lywodraethiant ERW ers peth amser cyn y pandemig a nodom y rhain mewn llythyron blaenorol i'r Cydbwyllgor. Nid yw'n eglur p'un ai a yw'r adborth negyddol gan arweinwyr ysgol yn adlewyrchu pryderon penodol am ymateb ERW i'r pandemig neu eu pryderon cyffredinol eu hunain am ERW.

**Hyrwyddo dysgu**

Parhaodd swyddogion yn ERW i gynorthwyo ysgolion â dysgu digidol yn nhymor yr hydref. Cynhaliont gyfres o weminarau i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac UCDau, yn rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan ategu'u gwaith cynharach. Fe wnaeth y sesiynau hyn gynnwys themâu penodol i arweinwyr ysgol, fel beth i'w ystyried yn achos ynysu grwpiau blwyddyn unigol. Hefyd, fe wnaeth y gweminarau hyn gynnwys recordiadau a thrafodaethau byw gydag arweinwyr ysgol o bob cwr o'r rhanbarth, a roddodd sicrwydd i arweinwyr ysgol wrth ystyried sut i roi eu cynlluniau eu hunain ar waith. Yn ogystal, rhannodd y tîm adnoddau diogelwch ar-lein a hunanadolygu, ynghyd â chymorth ar gyfer meysydd penodol o'r cwricwlwm, er enghraifft i ddatblygu arfer athrawon wrth godio. Ar Google Classroom, mae dosbarth a sefydlwyd yn benodol i gynorthwywyr addysgu ddatblygu'u medrau ar-lein, wedi denu dros 200 o bobl i gymryd rhan.

Mae staff sy'n helpu gyda datblygiad y Gymraeg wedi cadw mewn cysylltiad ag ysgolion yn rheolaidd. Er mwyn cynnal ymgysylltiad dysgwyr, crewyd amrywiaeth o adnoddau newydd, defnyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys Top Trumps 'Arwyr Cymreig', Calendr Siarter Iaith, darnau fideo Seren a Sbarc ar gyfer TGAU Cymraeg

a TGAU Cymraeg Ail Iaith, ynghyd â llyfr o ymarferion darllen yn arddull PISA ar gyfer dysgwyr iaith gyntaf ac ail iaith. Mae Ap Iaith ac adnodd 'Videoscribe' ar hanes yr iaith Gymraeg wedi cael eu datblygu ymhellach. Hyrwyddwyd yr adnoddau defnyddiol hyn ar draws platfformau digidol ERW. Yn ogystal, mae dau rwydwaith penodol ar Hwb (ERW – Cymraeg ac ERW – Cymraeg Ail Iaith) lle y gall athrawon uwchradd ddod o hyd i amrywiaeth fawr o adnoddau. Yn fwy diweddar, crewyd blatfform cenedlaethol – Y Pair (Adnoddau Cymraeg Uwchradd), ac Y Gist (Adnoddau Cymraeg Ail Iaith Uwchradd). Mae arbenigwyr ERW wedi cyfrannu at ddatblygu'r ddau blatfform.

Mae'r tîm pwnc arbenigol uwchradd wedi parhau i fireinio'u cynnig. Ffynhonnell allweddol o gymorth i ysgolion ac UCDau yw'r cyfarfodydd rhwydwaith pwnc ar-lein, sydd wedi bod yn boblogaidd. Mae'r holl eitemau ar yr agenda wedi'u cysylltu â blaenoriaethau cyffredin ysgolion ac wedi'u datblygu ar y cyd ag arweinwyr canol pwnc. Mae enghreifftiau o feysydd yn cynnwys arweinyddiaeth ar ôl y cyfnod clo, dysgu ac addysgu effeithiol yn y 'normal newydd', a chymwysterau 2021. Hefyd, mae'r timau wedi cynnig arweiniad i ysgolion ar sut orau y gallent ddefnyddio'r grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' ar gyfer pynciau penodol, ar y cyd ag ymgynghorwyr her awdurdodau lleol.

Mae timau pwnc wedi llunio amrywiaeth o adnoddau i enghreifftio sut beth yw dysgu o bell, dysgu cyfunol a dysgu effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae pwyslais cryf ar ehangder a dyfnder cynnwys y pwnc a dilyniant medrau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, ynghyd â dysgwyr ôl-16. Yn ogystal â'r cyngor ac arweiniad hwn, mae'r tîm uwchradd wedi darparu 'pecynnau ymateb' ar gyfer meysydd pwnc unigol, a chroesawyd y rhain. Mae'r pecynnau digidol hyn yn darparu tuag wythnos o ddeunydd i ddisgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n gorfod hunanynysu ac na allant fynd i'r ysgol. Gellir golygu'r pecynnau hyn a gall athrawon ystafell ddosbarth eu diwygio a'u newid i fodloni eu hanghenion.

**Cameo: Helpu addysgu gwyddoniaeth yn Ysgol Gymunedol Dylan Thomas**

Adeg dychwelyd i'r ysgol, dywedodd yr ysgol ei bod yn anodd iawn cynllunio sut i gynnal gweithgareddau ymarferol yn ddiogel. Dywedodd y pennaeth wrthym fod timau pwnc ERW wedi rhannu canllawiau clir a defnyddiol a dawelodd meddyliau athrawon y pynciau hyn. Er enghraifft, rhoddodd tîm gwyddoniaeth ERW enghreifftiau o safleoedd ar-lein a oedd yn cynnwys fideos yn arddangos arbrofion, a chyfoeth o adnoddau defnyddiol a difyr y gallai athrawon eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell.

Mae tîm y Cwricwlwm i Gymru wedi datblygu set o raglenni i archwilio model cysyniadol y cwricwlwm, y gellir ei ddefnyddio'n rhithwir neu, pan fydd y sefyllfa'n caniatáu, yn bersonol. Gellir mynd at y rhain drwy ran bwrpasol o'r wefan ac maent yn galluogi ysgolion i gael at gymorth i ddatblygu addysgeg, asesu a dilyniant. Hefyd, mae gweithdai ymgysylltu ar gyfer pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bwriedir i'r adnoddau gael eu defnyddio ar y cyd â dulliau dysgu proffesiynol a datblygwyd yn lleol ac yn genedlaethol.

I helpu ysgolion i ddatblygu'u hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru, mae ERW, mewn cydweithrediad â phartneriaid o sefydliad addysg uwch, wedi rhoi nifer o rwydweithiau dysgu proffesiynol ar waith, bob un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar addysgeg a'r chwe maes dysgu a phrofiad. Hefyd, mae'r tîm yn helpu ysgolion ac UCDau gyda'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, y Prosiect Addysgeg Cenedlaethol a'r Daith Dysgu Proffesiynol. I ategu'r agenda genedlaethol, bydd Ysgolion Ymholi Arweiniol yn cynorthwyo Ysgolion Ymholi Partner newydd i archwilio themâu fel Addysgeg a Dysgu, Ail-greu Addysg, Cynhwysiant ac Asesu. Mynychodd tua chant o bobl ddigwyddiad lansio ar-lein y rhwydweithiau hyn. Mae staff o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhwydweithiau hyn wedi cymryd rhan mewn sesiwn hanner diwrnod o gyflwyniad i hyfforddiant a mentora, ochr yn ochr ag ymgynghorwyr her o awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Er mai megis dechrau y mae'r gwaith hwn, mae swyddogion wedi cynnwys gweithgarwch gwerthuso, gan fabwysiadu model Kirkpatrick i asesu effeithiolrwydd y rhwydweithiau hyn dros gyfnod.

Mae rhaglenni arweinyddiaeth wedi cael eu hatal i raddau helaeth y tymor hwn hyd yn hyn, ond mae recriwtio wedi parhau ac mae llawer o garfanau newydd wedi dechrau'n ddiweddar neu byddant yn dechrau ar ôl y Nadolig. Mae swyddogion wedi addasu deunyddiau fel eu bod yn addas i'w defnyddio mewn darpariaeth gyfunol ac ar-lein, er enghraifft yn y Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol a ddechreuodd ym mis Tachwedd. Mae'r rhaglen benodol hon hefyd yn cynnwys 72 lle ategol i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, wedi'u hariannu gan y grant trawsnewid ADY. Bwriedir i'r ystod lawn o raglenni ailddechrau yn yr hydref, ynghyd â chymorth i athrawon newydd gymhwyso a fydd, eleni, yn cynnwys athrawon sydd wedi'u recriwtio o ganlyniad i'r grant Recriwtio, adfer, a chodi safonau.

**Cefnogi dysgwyr agored i niwed**

Ar gyfer dechrau'r tymor, comisiynodd ERW yr Athro Robin Banerjee i gyflwyno dysgu proffesiynol er mwyn datblygu dealltwriaeth staff o hunaneffeithlonrwydd a chyswllt, sy'n allweddol i gefnogi lles. Comisiynwyd Dr Carol Harper i ddarparu sesiwn ar 'Ysgolion Ystyriol o Drawma: Hyfforddiant Yn Ôl i'r Ysgol". Cymerodd tua 100 o ysgolion ran ym mhob digwyddiad. Cafodd sesiwn yr Athro Banerjee ei recordio a gwyliwyd y recordiad hwn dros 150 o weithiau ers hynny.

Mae penaethiaid ym Mhowys, er enghraifft, wedi dweud wrthym fod y deunyddiau hyfforddiant a chymorth i'r holl staff ar ddelio â materion yn gysylltiedig â thrawma wedi bod yn werthfawr iawn y tymor hwn wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Yn benodol, dywedodd penaethiaid fod yr holl staff yn gallu cael at hyfforddiant o'r fath yn hawdd a'i fod yn cyfoethogi'u trafodaethau ar sut i gefnogi disgyblion pryderus neu agored i niwed.

Mae dysgu proffesiynol buddiol pellach yn ystod tymor yr hydref i hybu lles a chefnogi dysgwyr agored i niwed wedi canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr sy'n derbyn gofal, dysgwyr sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd

gymdeithasol.  Recordiwyd llawer o'r sesiynau ac maent ar gael i ysgolion ac UCDau drwy wefan ERW.

Yn ddefnyddiol, mae ERW wedi amlinellu sut gall ei gynnig dysgu proffesiynol helpu ysgolion i wneud defnydd da o'u grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' gan Lywodraeth Cymru.

Mae ERW wedi comisiynu Challenging Education i arwain dysgu proffesiynol yn ystod y flwyddyn er mwyn hybu cydraddoldeb mewn addysg, o'r enw 'Meddwl Mewn Ffordd Wahanol ar gyfer Dysgwyr Difreintiedig'.  Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau dysgu proffesiynol byw bob hanner tymor sy'n cael eu recordio, fel eu bod ar gael i bawb.  Yn ogystal, mae ERW yn cynorthwyo 14 ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth, gan weithio gydag ymgynghorwyr o Challenging Education, i gymryd rhan mewn rhaglen 'Codi Cyflawniad Pobl Ifanc Ddifreintiedig' sy'n amcanu at newid eu hymagwedd yn llwyr.

Mae ERW wedi comisiynu Hafal i gynnig hyfforddiant ar wydnwch i 3 aelod staff o bob ysgol uwchradd er mwyn cynorthwyo dysgwyr Blynyddoedd 10 i 13 i baratoi ar gyfer arholiadau neu asesiadau.  Yn nhymor y gwanwyn, mae ERW wedi bwriadu cynnal hyfforddiant achrededig ar 'hyfforddiant emosiwn' a fydd yn galluogi'r bobl sy'n cymryd rhan i hyfforddi'u cydweithwyr.